## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(3)-06-10 : Papur 6 : 20 Ebrill 2010

## Nodyn cefndir ar y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio

### 1. Cyflwyniad

Cafodd y papur hwn ei baratoi ar gais Cadeirydd y Pwyllgor yn dilyn ymweliad y Pwyllgor â Brwsel ar 1 Mawrth 2010.

Yn benodol, mae'r Cadeirydd wedi gofyn am eglurhad ynghylch a gafodd unrhyw geisiadau eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Lywodraeth y DU o dan y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio (EGF), a sut mae hyn yn cymharu ag Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno cael eglurhad ynghylch a fyddai'r diswyddiadau diweddar a gyhoeddwyd yng Nghymru gan Bosch ac Alwminiwm Môn, yn gwneud y cwmnïau hyn yn gymwys i dderbyn cymorth o dan y Gronfa.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor:**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur, a nodi'r camau ychwanegol yr awgrymir y dylid eu cymryd yn Adran 5 isod.

### 2. Gwybodaeth gefndir am y Gronfa

Menter a gynigiwyd o dan Lywyddiaeth y DU o'r UE yn 2005 oedd y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio, a mabwysiadwyd y rheoliad gwreiddiol i lywodraethu, Rheoliad EC 1927/2006, ym mis Rhagfyr 2006.

Nodir diben y gronfa o dan y Rheoliad EC gwreiddiol 1927/2006, yn Erthygl 1:

> "…to enable the Community to provide support for workers made redundant as a result of major structural changes in world trade patterns due to globalisation where these redundancies have a significant adverse impact on the regional or local economy"

Roedd Erthygl 2 o Reoliad EC 1927/2006 yn egluro mwy am y meini prawf o ran ymyrryd yn ôl maint yr effaith ar yr economi ranbarthol neu leol (h.y. nifer y diswyddiadau a'r amserlen y mae hyn yn digwydd

oddi mewn iddi) yn ogystal ag egluro'r hyn a olygwyd yn benodol gan 'newidiadau ym mhatrymau masnach byd-eang':

> A financial contribution from the EGF shall be provided **where major structural changes in world trade patterns lead to a serious economic disruption, notably a substantial increase of imports into the European Union, or a rapid decline of the EU market share in a given sector or a delocalisation to third countries**, which results in:
>
> (a) at least **1000 redundancies over a period of 4 months** in an enterprise in a Member State, including workers made redundant in its suppliers or downstream producers; or
>
> (b) at least **1000 redundancies, over a period of 9 months**, particularly in small or medium-sized enterprises, in a NACE 2 sector in one region or two contiguous regions at NUTS II level.
>
> (c) In small labour markets or in exceptional circumstances, where duly substantiated by the concerned, an application for a contribution from the EGF may be considered admissible even if the conditions laid down in points (a) and (b) are not entirely met, when redundancies have a serious impact on employment and the local economy. The aggregated amount of contributions in exceptional circumstances may not exceed 15 % of the EGF each year. *[Bold has been added]*

Mae gwefan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth yn egluro y gellir defnyddio'r gronfa i gefnogi mesurau yn y farchnad lafur weithredol ar gyfer y gweithwyr sydd wedi'u diswyddo, gan gynnwys:

- cymorth i ddod o hyd i swyddi, cymorth galwedigaethol, hyfforddiant pwrpasol ac ail-hyfforddiant yn cynnwys sgiliau TG ac achredu profiad blaenorol, cymorth lleoli allanol a hyrwyddo mentergarwch neu gymorth i fod yn hunangyflogedig,
- mesurau arbennig â therfyn amser arnynt, fel lwfansau chwilio am swydd, lwfansau symudedd neu lwfansau i unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gydol oes neu hyfforddiant.

Ni ellir cefnogi mesurau amddiffyn cymdeithasol goddefol fel pensiynau ymddeoliad neu fudd-daliadau diweithdra drwy'r gronfa.

Mae gan y Gronfa ar hyn o bryd uchafswm blynyddol o €500m.

### 3. Yr argyfwng ariannol ac economaidd: diwygiadau i'r rheoliad

Fel rhan o ymateb cydlynol yr UE i'r argyfwng ariannol ac economaidd, diwygiwyd y rheoliad ynghylch y Gronfa ym mis Mehefin 2009 (drwy Reoliad EC 546/2009) i lacio'r meini prawf cymhwysedd er mwyn ei gwneud yn haws i wneud cais i'r Gronfa, ac i gyflwyno'r posibilrwydd o allu defnyddio effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd fel maen prawf ar gyfer cael cymorth o'r gronfa.

Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu cyflwyno Erthygl 1a newydd, fel cyfnod rhanddirymiad arbennig wedi'i gyfyngu tan 31 Rhagfyr 2011, sy'n cyfeirio'n benodol at yr argyfwng ariannol ac economaidd:

> "By way of derogation from paragraph 1, the EGF shall also provide support to workers made redundant **as a direct result of the global financial and economic crisis**, provided applications comply with the criteria set out in Article 2(a), (b) or (c). Member States applying for an EGF contribution under this derogation **shall establish a direct and demonstrable link between the redundancies and the financial and economic crisis.** This derogation shall apply to all applications submitted before 31 December 2011." *[ysgrifen fras wedi'i hychwanegu]. EC Regulation 546/2009*

Cafodd Erthygl 2 hefyd ei diwygio, er mwyn gostwng yr isafswm o ddiswyddiadau sydd eu hangen er mwyn gallu gwneud cais i'r EGAF, o 1,000 o ddiswyddiadau i 500 o ddiswyddiadau.

Cafodd Erthygl 10.1 ei diwygio er mwyn cynyddu'r raddfa ymyrryd fwyaf o 50% i 65% ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd o fewn yr amserlen a gyflwynwyd gan y rhanddirymiad yn Erthygl 1a (h.y. cyn 31 Rhagfyr 2011).

Cafodd y newidiadau a gyflwynwyd gan y rheoliad hwn eu hôl ddyddio i ddod i rym o 1 Mai 2009.

## 4. Ceisiadau i'r Gronfa

Caiff y gronfa ei rheoli gan y Comisiwn Ewropeaidd – y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb drosti.

Dim ond Aelod-wladwriaethau a all gyflwyno ceisiadau (h.y. llywodraethau cenedlaethol), felly, yn achos Cymru, byddai hyn yn golygu mai Llywodraeth y DU fyddai'n gwneud cais ar ran Cymru.

Caiff pob cais ei drin ar wahân a'r Comisiwn sy'n penderfynu i argymell bod prosiect yn cael cymorth ai peidio, ar ôl asesu'r cais ei hun. Y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop sy'n gwneud y penderfyniad i gymeradwyo'r argymhellion yn derfynol.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar wefan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth (hyd at 18 Mawrth 2010) yn dangos bod cyfanswm o **54 o geisiadau** gan **16 o Aelod-wladwriaethau** wedi'u

cyflwyno[1] ers lansio'r gronfa ym mis Rhagfyr 2006 – gweler Atodiad 1 – am **gyfanswm gwerth o dros €265m**.

O'r 54 cais, cyflwynwyd 18 cyn y diwygiad i'r rheoliad, a 36 ar ôl y diwygiadau i'r rheoliad.

Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad o nifer y ceisiadau gan Aelod-wladwriaethau.

**Tabl 1: Ceisiadau i'r Gronfa gan Aelod-wladwriaethau**

| **Aelod-wladwriaeth** | **Nifer y ceisiadau** |
|---|---|
| Awstria | 4 |
| Gwlad Belg | 2 |
| Bwlgaria | 1 |
| Denmarc | 3 |
| Y Ffindir | 1 |
| Ffrainc | 3 |
| Yr Almaen | 3 |
| Iwerddon | 3 |
| Yr Eidal | 5 |
| Lithiwania | 5 |
| Malta | 1 |
| Yr Iseldiroedd | 8 |
| Gwlad Pwyl | 2 |
| Portiwgal | 3 |
| Sbaen | 9 |
| Sweden | 1 |

Ni chafwyd **unrhyw geisiadau o'r DU** ers sefydlu'r gronfa ar ddiwedd 2006.

Dywedodd swyddogion y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth eu bod yn ymwybodol fod nifer o ranbarthau yn Lloegr wedi mynegi diddordeb mewn cyflwyno ceisiadau i'r EGAF. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r rhain eto wedi arwain at ddatblygu na chyflwyno cais. Fel y nodwyd uchod mae rheolau'r Gronfa yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu cyflwyno gan Aelod-wladwriaethau, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i Lywodraeth y DU gymryd y cam cyntaf o ran gwneud unrhyw geisiadau y dymuna'r awdurdodau rhanbarthol eu cyflwyno o dan y Gronfa.

[1] gweler http://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=326&langId=en)

## 5. Perthnasedd i Gymru

Mae dau gwestiwn o ran penderfynu a allai diswyddiadau diweddar (a diswyddiadau arfaethedig) yng Nghymru mewn cwmnïau fel Bosch ac Alwminiwm Môn arwain at dderbyn cymorth oddi wrth y Gronfa:

- Cymhwysedd o dan **feini prawf y Gronfa**, fel y nodir yn Rheoliad diwygiedig EC 546/2009 (fel y manylir yn *adran 3* uchod).

- Cytundeb Llywodraeth y DU, gan mai'r Aelod-wladwriaeth honno fydd yn gorfod cyflwyno ceisiadau i Gronfa.

**Awgrym am y camau i'w cymryd gan y Pwyllgor:**

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i geisio cadarnhad ynghylch:

- a yw Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y ddau achos hyn yn cyd-fynd â meini prawf y Gronfa, ac
- a ydynt yn mynd ar drywydd y mater hwn.

## 6. Rhagor o wybodaeth

Mae pwynt cyswllt cenedlaethol ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth, ac mae manylion am y rhain i'w gweld ar wefan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth.

Ar gyfer y DU mae'r pwyntiau cyswllt o fewn adran Polisi Rhyngwladol a Chyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (mae person cyswllt hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer Cynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE ond mae hwn wedi newid, felly nid yw wedi ei gynnwys yma):

**Ms Liz TILLETT,** Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n gweithio yn uned ryngwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau:

Deputy Director, Joint International Unit, Head of International Employment and Social Policy, Department of Work and Pensions,

**Mr Simon SMITH,** yn yr Adran Gwaith a Phensiynau:

EU and International Employment – DWP Joint International Unit

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ebrill 2010**